

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 hyd at 31/03/2023

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Caerfyrddin** ar gyfer **2023-24**.

Y camau i hyrwyddo siwrneiau teithio llesol	Mae'r cyngor yn parhau i fod yn rhan o ddatblygiad Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan weithio gyda sefydliadau partner allweddol gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion a Chyngor Sir Penfro gyda'r nod o ymrwmo i ddulliau teithio iachach a mwy cynaliadwy drwy gyfres o fesurau. Mae'r tîm Diogelwch Ffyrdd yn parhau i weithio gyda nifer o ysgolion ledled y sir i annog siwrneiau teithio llesol. Gwneir hyn drwy'r Cydgysylltydd Hyfforddiant Teithio Llesol a Diogel penodol sy'n helpu i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau megis: • Wythnos/mis Cerdded i'r ysgol; • Eco-ysgolion ac iach sy'n pennu ac yn cyrraedd targedau; • Kerbcraft, beicio safonau cenedlaethol, beicio mwy diogel ac ati; • Mewn partneriaeth â Sustrans i gyflawni'r rhaglen siwrneiau llesol. • Cydlynu hyfforddiant beicio i'r ysgol gyfan. • Cynorthwyo gyda Chynlluniau Teithio i'r Ysgol. • Cynllun 'Strydoedd Ysgol' parhaus mewn dau leoliad yn y sir - Porth Tywyn a Maes y Morta. Mae'r Cyngor yn diweddarau ei dudalen we Mynediad at Gerdded a Beicio (Teithio Llesol) yn rheolaidd ac mae'n parhau i hyrwyddo ac annog ymgysylltu trwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol: Mynediad i gerdded a beicio (Teithio Llesol) (llyw.cymru) Mae'r wefan yn cynnwys golwg ddychmygol o'n gweledigaeth ar gyfer prif lwybr teithio llesol o ansawdd uchel yn Llanelli, gwybodaeth am gynlluniau sy'n cael eu cynllunio ar hyn o bryd, ystadegau teithio a chynlluniau wedi'u cwblhau. Mae'r Cyngor wedi cadw ein platfform ymgynghori Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar agor i ganiatáu adborth ac awgrymiadau trwy gydol y flwyddyn.
--	--

	Nodweddion ychwanegol megis lluniau a lleoliad byw yn cael eu defnyddio. Map Teithio Llesol Cyngor Sir Caerfyrddin Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i rannu arfer da a gwybodaeth. Rydym yn cynnal cyfarfodydd misol rheolaidd gyda'n cynrychiolydd Trafnidiaeth i Gymru i drafod prosiectau presennol a rhai sydd ar y gorwel. Darperir man storio beiciau/sgwteri a chysgodfannau i rieni aros mewn 5 ysgol arall ledled Sir Gaerfyrddin.  <i>Podiau Sgwter Stebonheath</i> Mae'r Cyngor yn cynnig cyrsiau Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol (NSCT) Lefelau 1 a 2, i bob ysgol gynradd ar gyfer eu disgyblion Blwyddyn 6. Yn ystod 2023-24, mae 1383 o fyfyrwyr yn gallu dechrau ar eu cwrs NSCT, gyda 32 o'r disgyblion hyn yn cyrraedd Lefel 1 a 1351 yn mynd ymlaen i gwblhau eu cwrs Lefel 2. Parhaodd hyfforddiant cerdded i blant, gan gynnwys Kerbcraft, i ysgolion cynradd trwy gydol 23/24 a gyda chymorth gwirfoddolwyr, cafodd ei gyflwyno i fwy na 1110 o blant. Ymgysylltu parhaus â dwy ysgol (a rhanddeiliaid perthnasol) ar un safle yng nghanol Llanelli i baratoi ar gyfer cyflwyno mesurau Strydoedd Ysgol. Cydweithio parhaus â Sustrans i nodi a chael gwared ar rwystrau ar lwybrau cerdded/beicio presennol i wella mynediad ar gyfer beiciau, beiciau wedi'u haddasu, sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn.
Y camau i sicrhau cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd, a gwelliannau	Defnyddir y Map Rhwydwaith Teithio Llesol gan yr adran gynllunio i helpu i lywio cytundebau A106/A278 sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwella seilwaith a chysylltiadau teithio llesol

	. Cyswllt uniongyrchol rhwng swyddogion drwy gyfarfodydd misol i sicrhau bod yr adborth yn gywir. Mae'r cytundebau hyn yn aml yn cael eu cyfuno â thimau ariannu eraill megis y Gronfa Dyrannu Craidd Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Cyllid ar gyfer gwella/creu llwybrau Teithio Llesol (seilwaith newydd, cyrbau isel, palmant smotiog, mannau croesi) yn ogystal â darparu mannau storio beic/sgwteri a chysgodfannau aros i rieni mewn ysgolion ac yn y Sir. Yn ogystal â'r uchod, cynhelir trafodaethau yn ystod cyfarfodydd ffurfiol gydag adrannau perthnasol eraill gan gynnwys Addysg ac Adfywio a Pholisi. Caiff cronfa ddata blaenoriaethu diogelwch ffyrdd a throedffyrdd ei chadw a'i chynnal gan y cyngor. Mae'r gronfa ddata yn cael ei llenwi gan geisiadau gan drigolion lleol ac aelodau lleol. Caiff geisiadau eu sgorio yn seiliedig ar feini prawf megis data ynghylch damweiniau, llif y traffig/cerddwyr a maint y traffig a chaiff yr 20 cais sydd ar y brig eu hystyried yn fanylach cyn y gellid eu hadeiladu ar sail cyllid. Cydweithio rhanbarthol drwy Ddinas-ranbarth Bae Abertawe yn ystod cyfarfodydd swyddogion a chyfarwyddwyr. Deialog barhaus gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru ynghylch darpariaeth Teithio Llesol ar hyd y rhwydwaith strategol a sut rydym yn cysylltu â hyn. Cydweithio parhaus â rhanddeiliaid allweddol allanol fel grwpiau ymgyrchu beicio a grwpiau/unigolion nodwedd gwarchodedig i ganfod eu barn ar ddarnau coll pwysig/camau cyflym. Chwilio'n barhaus a gwneud cais am ffynonellau cyllid eraill i ategu neu greu cynlluniau AT a seilwaith cysylltiedig fel y Gronfa Ffyniant Bro a chyllid partneriaeth rheilffyrdd (GWR).
Costau'r cyfleusterau a'r llwybrau teithio llesol newydd a gwaith gwella'r cyfleusterau a'r llwybrau teithio llesol presennol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol	FY23/24 £732,000 Grant Craidd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a ddefnyddir ar gyfer: • Llinellau Rheilffordd segur – Dichonoldeb parhaus i ailagor llinellau rheilffyrdd segur fel llwybrau AT. Llwybr y Cardi Bach mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Benfro a hen lwybr Gwendraeth sy'n cysylltu o Gwm Mawr i Gydweli. • Gosod cyfleusterau parcio beiciau mewn lleoliadau allweddol ledled y sir.

- Gosod cownteri i fonitro ac adrodd ar symudiadau AT ar draws y sir.
- Gosod gorsafoedd atgyweirio beic mewn lleoliadau allweddol ledled y sir.
- Creu Prif gynlluniau yn barhaus (rhwydwaith cydlynol o lwybrau allweddol) yn ein hardaloedd adeiledig mwyaf. Yn cynnwys:
 - Llanelli
 - Caerfyrddin
 - Rhydaman / Cross Hands
 - Sanclêr
 - Y Tymbl
 - Llanymddyfri
 - Porth Tywyn a Phen-bre

Mae'r ddau brif gynllun isod yn ymdrin â datblygu cynllun penodol.

- Roedd Prif Gynllun Llanelli yn cwmpasu'r cynlluniau canlynol:
 - Goleuadau Halfway – Dichonoldeb ac ailgynllunio cyfnewidfa drafnidiaeth bwysig ar y prif lwybr arfaethedig gyda chysylltiadau allweddol â safleoedd cyflogaeth a manwerthu.
 - A484 i Gylchfan Box – dyluniad dichonoldeb cyswllt o Bont Phil Bennett i ganol tref Llanelli.
 - Cyswllt bragdy Felin-foel – dyluniad dichonoldeb estyniad o waith SRiC a gwblhawyd yn flaenorol i greu llwybr parhaus yng nghanol tref Llanelli.
 - Stryd y Môr – dyluniad dichonoldeb llwybr o Orsaf Reilffordd Llanelli i Ddoc y Gogledd a Llwybr Arfordir y Mileniwm gerllaw.
- Rhydaman/Cross Hands sy'n cwmpasu'r cynlluniau canlynol:
 - Heol y Llew Du – monitro a dichonoldeb i wella'r ddarpariaeth AT.
 - Heol Shands – monitro a chytuno ar sut orau i wella'r ddarpariaeth AT
 - Gilfach Iago – gweithio gyda chydweithwyr PROW i ddylunio llwybr sy'n cydymffurfio ag AT drwy'r hen chwarel.
 - Gwaith mân yn cynnwys creu/uwchraddio llwybr rhannu defnydd o amgylch parc busnes Cross Hands (mae hyn yn £20,500 o gyllid cyfatebol S106). Mae hefyd yn cynnwys mân weithiau yn Cwmaman United i wella'r cyswllt AT ar hyd Feicffordd Dyffryn Aman. Lluniau isod:



FY 23/24 Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - £457,395 Pont-henri.

Creu llwybr cyd-ddefnyddio newydd drwy'r parc sy'n arwain at yr ysgol a'r Neuadd Gymunedol. Lledu palmant y tu allan i'r ysgol a hyd at yr arhosfan bysiau lleol i annog teithio cynaliadwy. Gosod croesfannau â thwmpath a phalmentydd estynedig i arafu traffig a sicrhau diogelwch cerddwyr.

FY 23/24 Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - £423,705 Y Tymbl.

Ymgymryd â gwaith uwchraddio drwy barc lleol sy'n arwain at yr ysgol leol, neuadd gymunedol a Chlwb Rygbi Tymbl Creu llwybrau gwell yn arwain yn uniongyrchol i'r NCN. Llun isod:



FY 23/24 Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - £50,000 Datblygu Strydoedd Ysgol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar safle ysgol newydd yn seiliedig ar yr astudiaeth yn 22/23. Bydd y gwaith hwn yn ceisio datblygu mesurau corfforol a chymorth fel rhan o gynllun strydoedd ysgol newydd.

FY 23/24 ATF - Prif Gynllun Rhydaman i Cross Hands - Cam 3 Cae'r-bryn i Ben-y-groes. £32,430. Gwaith

	dichonoldeb parhaus sy'n berthnasol i'r llwybr allweddol hwn a nodwyd ym mhrif gynllun Cross Hands/Rhydaman. FY 23/24 ATF – Pont Ddu £178,571. Gwaith paratoi parhaus i alluogi cais adeiladu cyllid llawn yn FY 24/25. Bydd hyn yn cynnwys gwaith clirio, paratoi lluniadau adeiladu a deialog gyda Network Rail. FY 23/24 ATF – Exchange Row. £462,126. Adeiladu cyfleuster croesi newydd a gwell darpariaeth AT ar ran allweddol o brif lwybr Llanelli. Llun isod:  FY 23/24 ATF – Heol Yspitty £98,236. Adeiladu llwybr mynediad newydd a man croesi ar hyd yr NCN sy'n cysylltu â Llwyr Arfordir y Mileniwm. Llun isod: 
--	--

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a ariennir gan drydydd partïon neu eu hariannu'n rhannol.	FY24/25 £732,000 (ATF Craidd) • Cysylltiadau cyflogaeth â Throstre a Pemberton • Cysylltiadau Teithio Llesol Llanelli – Ymgynghoriad a Dylunio Terfynol. • Llinellau Rheilffordd segur • Prif Gynllun Cysylltiadau Rhydaman i Cross Hands • Gwelliannau Rhwydwaith Cerdded a Beicio Caerfyrddin • Gwelliannau Teithio Llesol Llanymddyfri • Cyfleusterau Teithio Llesol Ysgol a Chyflogaeth
--	--

	• Parcio Beiciau ac Arwyddion • Cysylltu Cydweli • Prosiect Tynnu Rhwystr Sustrans Cronfa Teithio Llesol FY 24/25 Pont Ddu - £1,882,798. Adeiladu strwythur a ramp pont newydd dros y rheilffordd yn Llanelli. Bydd hyn yn disodli'r strwythur grisiau presennol (heb gydymffurfio ag AT). Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau FY 24/25 Trimsaran - £1,050,000. Creu a gwella'r rhwydwaith AT yn Nhrimsaran a'r cyffiniau yn sgil ymgysylltu â'r gymuned. Yn cynnwys cyswllt pellter hir â Charwe gyfagos. Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau FY 24/25 Dre-fach - £610,000. Creu a gwella'r rhwydwaith AT yn Drefach ac o'i hamgylch yn sgil ymgysylltu â'r gymuned. Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau FY 24/25 Strydoedd Ysgol - £99,000. Yn cynnwys creu llwybrau rhannu defnydd ychwanegol sy'n arwain at safle'r ysgol.
Hyd y llwybrau newydd: - Cerdded - Beicio - Rhannu Defnydd	85m o lwybr rhannu defnydd a chroesfan sy'n cysylltu Heol Yspitty â Lwybr Arfordirol y Mileniwm fel rhan o'r rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. 80m o lwybr rhannu defnydd a 15m o well cyfleusterau i gerddwyr wrth groesi Exchange Row. 65m o lwybr rhannu defnydd ym Mharc Busnes Cross Hands. 35m o lwybr rhannu defnydd yn Cwmaman United ar Lwybr Beicio Dyffryn Aman 175m o lwybr rhannu defnydd trwy Barc Hamdden y Tymbl 60m o droedffordd newydd sy'n arwain at gyfleuster chwaraeon.
Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella: - Cerdded - Beicio - Rhannu Defnydd	65m o lwybr wedi'i uwchraddio o lwybr troedffordd i lwybr rhannu defnydd ym Mharc Busnes Cross Hands. 85m o lwybr wedi'i uwchraddio o lwybr troedffordd i lwybr rhannu defnydd trwy Barc Hamdden y Tymbl 200m o lwybr wedi'i uwchraddio o lwybr troedffordd i lwybr rhannu defnydd trwy barc Pont-henri sy'n cysylltu â safle'r ysgol. 110m o lwybr troed wedi'i ledu a chyflawni gwaith cysylltiedig (cyrbau isel/tactilau) ar Heol y Pentre.

	70m o ledu troedffordd i gefn Eglwys Dewi Sant (Y Tymbl).
Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell	FY23/24 – Fel y soniwyd uchod, darperir man storio beiciau/sgwteri a chysgodfannau i rieni aros mewn 5 ysgol. (SRiC & ATF Craidd).

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Mae gan staff yng Nghaerfyrddin fynediad at 2 feic adrannol i annog teithio cynaliadwy i safleoedd yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau ei hun.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein a bydd copi caled ar gael ar gais, yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol statudol (argraffiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Wendy Walters

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

01/11/24